INDEPENDENT SENTENCING REVIEW

# Adolygiad Dedfrydu Annibynnol

# Adroddiad terfynol a chynigion ar gyfer diwygio

## Crynodeb Gweithredol

### Diben a chyd-destun yr Adolygiad hwn

Yn haf 2024, daeth pwysau cynhwysedd â'r system garchardai yn agos iawn at chwalu. Mae poblogaeth oedolion y carchardai, a amcangyfrifir i fod dros 87,000 ym mis Ebrill 2025,[1] ar hyn o bryd yn fwy na'r cynhwysedd y mae'r system wedi'i gynllunio i'w gynnwys, a rhagwelir y bydd yn cynyddu.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau cynhwysedd hyn, mae llywodraethau olynol wedi gorfod mabwysiadu mesurau brys i ryddhau lleoedd, gan gynnwys lleihau'r pwynt rhyddhau ar gyfer rhai carcharorion o 50% o'u dedfryd i 40% (SDS40).[2] Ni all y mesurau hyn ddatrys yr argyfwng cynhwysedd yn y tymor hir na chryfhau effeithiolrwydd y ffordd y caiff ein carchardai eu rhedeg.

Wedi'i gomisiynu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Hydref 2024, rhoddwyd y dasg i'r **adolygiad annibynnol hwn o ddedfrydu** (“yr Adolygiad”) o ailwerthuso ein fframwaith dedfrydu'n gynhwysfawr, er mwyn sicrhau nad yw'r wlad byth eto mewn sefyllfa lle mae ganddi fwy o garcharorion na lleoedd mewn carchardai, a bod y llywodraeth yn gorfod dibynnu ar broses argyfwng o ryddhau carcharorion.

Mae'r Adolygiad hwn hefyd yn croesawu'r cyfle i feddwl yn fwy dychmygus ynglŷn â sut rydym yn dedfrydu ac yn defnyddio caethiwed, gan fod o’r farn bod angen diwygio ein system bresennol, waeth beth fo'r pwysau ar gynhwysedd carchardai, er mwyn adsefydlu troseddwyr yn fwy llwyddiannus, lleihau aildroseddu a chefnogi dioddefwyr.

Dibenion dedfrydu, fel y'u nodir mewn deddfwriaeth, yw cosbi, lleihau troseddu, gwneud iawn, adsefydlu a diogelu'r cyhoedd. Canfu adroddiad Rhan 1 yr Adolygiad, Hanes a Thueddiadau mewn Dedfrydu, dros y ddau ddegawd diwethaf, fod dedfrydu wedi canolbwyntio'n anghymesur ar gosb gyda barn gwleidyddion a'r cyfryngau mai "yr unig fath o gosb sy'n cyfrif yw carcharu.”[3]

Mae cosbi yn nod pwysig i'r system cyfiawnder troseddol, ac mae carchar yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni cosb. Fodd bynnag, yn rhy aml mae gwneud penderfyniadau gwleidyddol wedi'i seilio ar ddull mai cosb yw'r cyfan sy'n bwysig, gyda phleidiau gwleidyddol yn brin o ffocws priodol ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau troseddu. Dangosir hyn gan y lefelau uchel o aildroseddu, sy'n awgrymu bod y dull presennol yn methu â chyflawni adsefydlu a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu. Ar y cyfan, mae cyfraddau aildroseddu wedi’u profi ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion wedi amrywio rhwng uchafswm o 30.6% ac isafswm o 22.7%, gyda'r data diweddaraf yn dangos cyfradd aildroseddu wedi’i phrofi gyffredinol o 27.5%.[4] Mae'r Adolygiad yn nodi sut y gellir cyflawni dibenion statudol dedfrydu yn well o fewn ein system cyfiawnder troseddol, lle mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol i leihau troseddu ac, yn y pen draw, nifer y dioddefwyr.

## Ein dull

Ymrwymodd y Llywodraeth waith yr Adolygiad hwn i dair egwyddor sylfaenol, fel y nodir yn ei Chylch Gorchwyl:

- Yn gyntaf, rhaid i ddedfrydau gosbi troseddwyr ac amddiffyn y cyhoedd – rhaid bod lle yn y carchar bob amser i'r troseddwyr mwyaf peryglus.
- Yn ail, rhaid i ddedfrydau annog troseddwyr i droi eu cefnau ar fywyd o droseddu, gan greu llai o droseddu drwy leihau aildroseddu.
- Yn drydydd, rhaid inni ehangu a gwneud mwy o ddefnydd o gosb y tu allan i'r carchar.

Mae'r Adolygiad hwn wedi'i arwain gan yr egwyddor bod yn rhaid bod lle bob amser yn y carchar i'r troseddwyr mwyaf peryglus sy'n peri risg rhy uchel i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r dull a ddefnyddiwyd yn ystod y degawdau diwethaf o anfon mwy o bobl i'r carchar ac am gyfnod hirach yn anghynaladwy. Canfu Rhan 1 o adroddiad yr Adolygiad fod y gost enfawr i'r llywodraeth a'r trethdalwr wedi'i gwaethygu gan fwy o droseddwyr yn derbyn dedfrydau o garchar, a dedfrydau o garchar yn mynd yn hirach. Amcangyfrifwyd bod cost gyfartalog dal carcharor am y flwyddyn yn £53,801 fesul carcharor yn 2023-24,[5] tra bod rhaglenni adeiladu carchardai arfaethedig y Llywodraeth yn cael eu hamcangyfrif i gostio rhwng £9.4 biliwn a £10.1 biliwn.[6]

Yn seiliedig ar y tueddiadau cyfredol, disgwylir i nifer y bobl sy'n cael eu hanfon i'r carchar fod yn fwy na'n cyflenwad o leoedd carchar.[7] Cynghorodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y byddai anelu at leihau'r galw i 9,500 o leoedd carchar yn helpu i sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer y troseddwyr mwyaf difrifol, gan nodi'r angen am gynlluniau wrth gefn a lle ychwanegol rhag ofn unrhyw sioc allanol.

Mae adeiladu carchardai fel ateb i'r argyfwng hwn yn amlwg yn gynnig costus, a byddai'n dod ar gost sylweddol o beidio â buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill a allai helpu i leihau aildroseddu. Mae dull cosbol llywodraethau diweddar yn anghynaladwy yn ariannol, ond nid yw'n cadw'r cyhoedd yn ddiogel chwaith. Tynnodd Rhan 1 o adroddiad yr Adolygiad sylw at dystiolaeth yn dangos nad dedfrydu dan glo yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau aildroseddu a lleihau troseddau.[8] Amcangyfrifodd dadansoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn seiliedig ar garfan o droseddwyr yn 2016 a aeth ymlaen i aildroseddu o fewn cyfnod o 12 mis, fod cyfanswm cost economaidd a chymdeithasol aildroseddu yn £18 biliwn.[9]

Felly, mae'r Adolygiad hwn wedi ystyried sut y gall y Llywodraeth ddefnyddio'r ddalfa mewn ffordd fwy craff a chynaliadwy. Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod dedfrydau o garchar yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd ac yn cadw dioddefwyr a'r cyhoedd yn ddiogel, gan ymgorffori mwy o gynaliadwyedd a disgyblaeth gyllidol yn y system garchardai. Mae'r Adolygiad hefyd yn rhoi cyfle i sicrhau bod polisi dedfrydu wedi'i seilio ar y mesurau mwyaf llwyddiannus i leihau aildroseddu, gan amddiffyn y cyhoedd ac arwain at lai o ddioddefwyr yn y pen draw. Rydym wedi clywed yn aml nad yw anghenion dioddefwyr yn cael eu diwallu gan y system bresennol, a bydd argymhellion yr Adolygiad hwn yn mynd i'r afael â'r angen am fwy o dryloywder ynghylch dedfrydu a chefnogaeth fwy cyson i ddioddefwyr.

Y consensws llethol o'r dystiolaeth y mae'r Adolygiad wedi'i chasglu yw mai cymorth adsefydlu yn y gymuned, mewn llawer o achosion, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau aildroseddu. Mae hyn yn ymwneud â'r gwasanaethau y mae'n ofynnol i droseddwyr ymgysylltu â nhw wrth dreulio dedfryd yn y gymuned neu wrth gael eu rhyddhau i'r gymuned ar drwydded, yn dilyn dedfryd o garchar.

Yn gyntaf, gall rhaglenni adsefydlu yn y gymuned fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu drwy ymyriadau arbenigol a theilwredig, megis gofynion iechyd meddwl, triniaeth cyffuriau ac alcohol.[10] Mae dedfrydau cymunedol hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ofynion, gan greu dedfryd bwrpasol sy'n cyflawni holl ddibenion dedfrydu ac yn rhoi cyfle i droseddwyr

drawsnewid eu bywydau.[11] Gall dedfrydau di-garchar fod yn llai aflonyddgar i gyfrifoldebau tai, cyflogaeth a theuluol, y mae'r aflonyddwch arnynt wedi'i nodi fel ffactor sy'n sbarduno troseddu ac aildroseddu.[12] Gall opsiynau di-garchar hefyd fod yr un mor gosbol â dedfrydau byr o garchar, gan ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr gydymffurfio ag ystod o rwymedigaethau dros gyfnod llawer hirach, gan gyfyngu ar eu rhyddid a chyfyngu ar eu hymddygiad.

Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod y gall unrhyw orlenwi carchar o ganlyniad i bwysau cynhwysedd gyfyngu ar faint o weithgarwch pwrpasol adsefydlu sydd ar gael. Canfu adroddiad blynyddol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer 2022-2023 fod safonau gweithgaredd pwrpasol wedi'u graddio'n wael neu'n annigonol o dda ym mhob un ond un o'r carchardai oedolion gwrywaidd a arolygwyd.[13] Wrth gyhoeddi ei hadroddiad 2023-2024, dywedodd yr Arolygiaeth, “yn hytrach na charcharorion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ymyriadau i leihau eu risg o aildroseddu ... canfu arolygwyr gynnydd mewn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, hunan-niweidio a thrais.”[14]

Mae'r Adolygiad hwn wedi nodi pecyn o fesurau sydd nid yn unig yn anelu at fynd i'r afael â'r bwlch cynhwysedd mewn carchardai ond a fydd hefyd yn creu system fwy cefnogol ac effeithiol i droseddwyr a'u dioddefwyr. Er mai'r Llywodraeth sydd i benderfynu pa rai o argymhellion yr Adolygiad y bydd yn eu derbyn, mae'r Adolygiad yn ystyried ei argymhellion fel pecyn cyfannol o fesurau a fydd yn gweithio orau ar y cyd â'i gilydd. Effaith gyfunol pum polisi allweddol a argymhellir gan yr Adolygiad hwn yw arbedion o tua 9,800 o leoedd carchar. Mae'r Adolygiad hefyd yn annog y Llywodraeth i ystyried tegwch gweithdrefnol wrth gynllunio a gweithredu ei hargymhellion, er mwyn sicrhau bod pobl yn y system cyfiawnder troseddol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

Mae'r Adolygiad yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaeth prawf sy'n gweithredu'n dda ac sydd wedi'i ariannu'n dda i helpu i gyflawni ei argymhellion. Mae effaith llwythi achosion uchel a chymhleth ynghyd â chyfyngiadau cyllidebol wedi bod yn sylweddol, gan arwain at lai o adnoddau ar gyfer goruchwylio a chefnogi o fewn y gwasanaeth prawf.[15] Mae'r cyfyngiadau hyn wedi cyfyngu ar allu swyddogion prawf i roi sylw digonol, unigol i droseddwyr.[16] Ochr yn ochr ag argymhelliad ar gyfer buddsoddiad ymlaen llaw, mae'r Adolygiad yn cydnabod bod adnoddau dan bwysau, ac yn debygol o barhau i fod, sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r Gwasanaeth Prawf flaenoriaethu sut mae'n goruchwylio ac yn rheoli troseddwyr i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni rhaglenni ac ymyriadau angenrheidiol. Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod y gallai cynnydd yn nifer y troseddwyr sy'n cael eu rheoli yn y gymuned effeithio ar wasanaethau'r heddlu hefyd ac yn awgrymu bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref i ddeall yr effaith hon.

## Ein Cwmpas

Mae'r Adolygiad wedi cael y dasg o ailwerthuso rhai agweddau ar ddedfrydu a rheoli troseddwyr yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae amryw o ddulliau sy'n effeithio ar gynhwysedd carchardai y tu allan i'w gwmpas.

Y mecanweithiau i leihau pwysau cynhwysedd carchardai, ar wahân i adeiladu mwy o garchardai, yw **1)** lleihau nifer y bobl sy'n mynd i'r carchar, **2)** lleihau hyd cyffredinol dedfrydau carchar, a **3)** symud unigolion drwy'r system yn gyflymach. Mae argymhellion yr Adolygiad wedi mynd i'r afael yn bennaf â'r cyntaf a'r olaf o'r tri mecanwaith hyn.

Mae sawl dull o fewn dedfrydu y gellid eu defnyddio i leihau'r bwlch rhwng y galw a'r cyflenwad mewn carchardai y tu allan i'r cwmpas, gan gynnwys datrysiadau y tu allan i'r llys, cadw ar remánd, dedfrydau Carchar er Gwarchod y Cyhoedd (IPP) a'r fframwaith dedfrydu statudol ar gyfer llofruddiaeth. Nid yw'r Adolygiad wedi ystyried dedfrydu mewn achosion unigol na rôl y farnwriaeth chwaith. Mae rhai o'r dulliau hyn yn cael eu hystyried ar wahân gan y Llywodraeth.

Bydd yr Adolygiad Annibynnol o Lysoedd Troseddol dan gadeiryddiaeth Syr Brian Leveson yn argymell diwygiadau ychwanegol i greu system cyfiawnder troseddol fwy cynaliadwy. Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad ar lofruddiaeth a'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.

Ym Mhennod Naw, mae'r Adolygiad yn awgrymu meysydd y mae angen i'r Llywodraeth eu hystyried yn fanylach i gyfrannu at gynaliadwyedd tymor hwy'r system garchardai, gan fynd i'r afael â ffactorau a oedd naill ai y tu allan i gwmpas yr Adolygiad hwn, neu nad yw'r Adolygiad wedi cael amser i'w hystyried yn llawn. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried hyd cyffredinol dedfrydau carchar ar gyfer rhai troseddau, megis newidiadau i ddedfrydau lleiaf ac uchaf, a chynrychiolaeth anghymesur o rai grwpiau o fewn y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod gwerth ymyrraeth gynnar i atal pobl rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf ac i fynd i'r afael, lle bo modd, â'r ffactorau sy'n achosi trosedd. Mae dedfrydu, carchar a phrawf yn cynnwys nifer gyfyngedig o ddulliau i liniaru trosedd a chadw dioddefwyr a'r cyhoedd yn ddiogel. Lleihau nifer y bobl sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol fydd hefyd yn y pen draw yn cael yr effaith fwyaf ar faterion cynhwysedd. Dylai'r Llywodraeth barhau i archwilio, ar draws ei holl adrannau, fesurau effeithiol i atal troseddu am y tro cyntaf.

## Methodoleg a phroses

Mae'r Adolygiad wedi casglu tystiolaeth helaeth ochr yn ochr â rhaglen o ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio ei argymhellion.

Denodd ein Galwad am Dystiolaeth ychydig dros 1,000 o ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion a oedd yn cynnwys cyrff cyfiawnder troseddol, sefydliadau trydydd sector, dioddefwyr, cyn-droseddwyr ac unigolion yn y ddalfa, staff rheng flaen, academyddion ac aelodau'r cyhoedd. Ychwanegwyd at y mewnwelediad gwerthfawr hwn gan amrywiol gyfarfodydd bord gron ac ymweliadau a gynhaliwyd gan yr Adolygiad, gan helpu i daflu goleuni pellach ar bynciau fel y defnydd posibl o dechnoleg yn y broses ddedfrydu, materion rhywedd wrth ddedfrydu yn canolbwyntio ar ddioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched, a safbwyntiau dioddefwyr a'r rhai sydd â phrofiad byw o'r system. Sicrhaodd ymweliadau â charchardai dynion a menywod, unedau cyflwyno prawf, safleoedd cymeradwy a chanolfannau menywod fod safbwyntiau o'r rheng flaen yn cael eu bwydo i ddadansoddiad ac argymhellion yr Adolygiad.

Edrychodd yr Adolygiad hefyd ar gymharwyr rhyngwladol i ddysgu o arfer gorau ledled y byd, gan ysgogi ymweliadau â Sbaen a Texas, UDA. Gweler Atodiad A am bapur cryno o'r holl dystiolaeth a gasglwyd trwy raglen Galwad am Dystiolaeth ac ymgysylltu'r Adolygiad.

Yn olaf, cynhaliodd yr Adolygiad ddadansoddiad i ddeall yr effaith debygol ar leoedd carchar o'i gynigion a gânt eu hargymell, sydd hefyd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn Atodiad B.

### [BLWCH TYNNU SYLW] **Canfyddiadau Allweddol o Ran 1**[17]

- **Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth wedi bod yn gweithredu dan straen mawr oherwydd pwysau cynhwysedd.** Mae gan Gymru a Lloegr un o'r cyfraddau carcharu uchaf y pen yng Ngorllewin Ewrop.

- **Mae sawl ffactor wedi cyfrannu at dwf poblogaeth carchardai.** Bu cynnydd yn nefnydd a hyd dedfrydau carchar ac adalw. Mae hyn wedi digwydd ochr yn ochr â gostyngiad yn y defnydd o ddedfrydau di-garchar a gorchmynion dedfrydau gohiriedig. Mae newidiadau deddfwriaethol hefyd wedi arwain at dreulio mwy o

amser yn y ddalfa ac wedi creu fframwaith dedfrydu cymhleth i ddioddefwyr, troseddwyr a'r cyhoedd.

- **Mae'r naratif gwleidyddol "llym ar droseddu" wedi cael effeithiau negyddol ar bolisi dedfrydu**. Mae'r naratif hwn yn canolbwyntio ar garcharu hirach a blaenoriaethu mesurau cosbol dros ystyriaethau eraill. Mae naratifau'r cyfryngau, sy'n aml yn canolbwyntio ar achosion proffil uchel neu annodweddiadol, wedi sefydlu camddealltwriaeth am y system ac wedi caledu agweddau'r cyhoedd tuag at droseddu.

- **Mae angen brys am newid.** Roedd gwariant cyhoeddedig ar garchardai yn £4.2 biliwn yn 2022-23. Bydd gwariant yn parhau i gynyddu os na chaiff poblogaeth y carchardai ei lleihau. Mae adeiladu ein ffordd allan o argyfwng yn gostus, gyda chostau yn y dyfodol yn debygol o gynyddu gyda chwyddiant. Mae cynlluniau adeiladu cyfredol yn dal i fod yn brin o'r cynnydd a ragwelir.

## Argymhellion

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Mae **Pennod Un: ailystyried dibenion statudol dedfrydu** yn edrych ar y canlyniadau y mae ein fframwaith dedfrydu presennol wedi'i gynllunio i'w cyflawni. Mae'n dod i'r casgliad bod pwysau anghymesur wedi'i roi i gosb, er ei bod yn egwyddor hanfodol yn y system cyfiawnder troseddol, ac nad oes digon o ffocws wedi bod ar leihau troseddu. Yr argymhelliad yn y bennod hon yw:

- **1.1:** Diwygio dibenion statudol dedfrydu i bwysleisio pwysigrwydd amddiffyn dioddefwyr a lleihau troseddu

Mae **Pennod Dau: cryfhau dewisiadau amgen i gaethiwed yn y gymuned** yn archwilio'r ffyrdd y gellir gwneud dedfrydau cymunedol yn fwy cadarn. Mae'r bennod hon yn cynnwys argymhellion i alluogi dedfrydwyr i fanteisio'n llawn ar hyblygrwydd dedfrydu cymunedol, i gydbwyso cosb briodol, goruchwyliaeth ac adsefydlu. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **2.1:** Adolygu'r fframwaith dedfrydu i sicrhau y gall dedfrydwyr fanteisio'n llawn ar hyblygrwydd dedfrydu cymunedol, gan gynnwys cosbau ariannol a gorchmynion ategol
- **2.2:** Adolygu canllawiau dedfrydu a fframweithiau prawf i ehangu cwmpas cosb o fewn gorchmynion cymunedol
- **2.3:** Cynyddu buddsoddiad mewn darparwyr Gofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol i gynyddu hygyrchedd i droseddwyr sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl
- **2.4:** Symleiddio a chryfhau gorchmynion cymunedol drwy ddiddymu'r Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu a chyflwyno Gofyniad Prawf ehangach

Mae **Pennod Tri: Lleihau dibyniaeth ar y ddalfa** yn dadlau bod rhaid defnyddio'r ddalfa nid yn unig lle bo'n briodol ond fel dewis olaf. Mae'r bennod hon yn nodi cyfres o fesurau i leihau'r defnydd o'r ddalfa ar gyfer troseddau llai difrifol, gan annog cosb gadarn yn y gymuned a allai gynnig adsefydlu mwy effeithiol. Mae'r Adolygiad hefyd wedi ystyried ffyrdd o gryfhau'r ymateb i droseddau â chymhelliant ariannol lle nad yw carchar yn unig yn darparu digon o gosb ac ataliaeth. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **3.1:** Deddfu i sicrhau mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y defnyddir dedfrydau byr o garchar
- **3.2:** Ymestyn y terfyn uchaf ar Orchmynion Dedfrydau Gohiriedig i ddedfrydau o garchar hyd at dair blynedd
- **3.3:** Ymestyn y cyfnod dedfrydu gohiriedig i 12 mis
- **3.4:** Annog y defnydd o ddedfrydau gohiriedig ar gyfer troseddwyr risg isel sydd ag anghenion y gellir mynd i'r afael â nhw yn y gymuned
- **3.5:** Dylai'r Cyngor Dedfrydu gyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio dedfrydu gohiriedig
- **3.6:** Casglu a chyhoeddi data ar ddedfrydu gohiriedig
- **3.7:** Ymestyn Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol i ganiatáu iddynt fod yn berthnasol am gyfnod troseddwr yn y ddalfa yn ogystal ag am bum mlynedd ar ôl ei ryddhau
- **3.8:** Ystyried cryfhau gorchmynion atafaelu er mwyn sicrhau y gellir cymhwyso'r gyfraith yn deg yn ymarferol
- **3.9:** Ystyried sefydlu cynllun derbynyddiaeth droseddol, gan gynnwys derbynyddiaeth ataliedig

Mae **Pennod Pedwar: Rhoi cymhellion i symud ymlaen o'r ddalfa i'r gymuned** yn nodi sut y gellir symud troseddwyr ymlaen yn ddiogel o'r ddalfa i'r gymuned drwy "gynnydd a enillir" - system o wobrwyo cydymffurfiaeth â rheolau carchar. Mae'r bennod hon hefyd yn edrych ar newidiadau i adalw, ehangu'r defnydd o amodau agored mewn carchardai a gwella mynediad at lety cymunedol i roi'r cyfle gorau i bobl sy'n gadael y carchar lwyddo ar ôl iddynt symud i'r gymuned. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **4.1:** Cyflwyno model “cynnydd a enillir” ar gyfer y rhai sy’n cyflawni dedfrydau safonol penodol
- **4.2:** Cyflwyno model “cynnydd a enillir” ar gyfer y rhai sy’n cyflawni dedfrydau estynedig penodol
- **4.3:** Cyflwyno model newydd ar gyfer adalw i’r rhai sy’n cyflawni dedfrydau safonol penodol, gyda meini prawf a throthwyon llymach
- **4.4:** Cynyddu a theilwra'r defnydd o amodau agored lle bo'n addas ar gyfer troseddwyr
- **4.5:** Gwella buddsoddiad mewn llety yn y gymuned a mynediad iddo i droseddwyr sy'n gadael y carchar a'r rhai sy'n cyflawni dedfrydau yn y gymuned

Mae **Pennod Pump: Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr** yn cydnabod, i lawer o ddioddefwyr, y gall y drefn ddedfrydu bresennol fod yn anhryloyw ac yn rhy gymhleth, gan gyfrannu at ddiffyg ymddiriedaeth a phryder. Mae'r cynigion a wneir gan yr Adolygiad yn y bennod hon yn ceisio datgyfrinio’r broses ddedfrydu a darparu eglurder, cefnogaeth sy'n seiliedig ar drawma a chyfathrebu amserol ac empathetig i ddioddefwyr troseddau. Mae'r bennod hon hefyd yn archwilio trais yn erbyn menywod a merched a sut y gellir cefnogi dioddefwyr y troseddau hyn yn well trwy ddedfrydu. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **5.1:** Lansio ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ar ddedfrydu
- **5.2:** Ystyried sut i wella tryloywder ynghylch hyd yr amser y mae troseddwr yn ei dreulio yn y ddalfa
- **5.3:** Adolygu'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr a thystion, gan fynd i'r afael â rhwystrau i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth yn effeithiol
- **5.4:** Parhau i ddarparu copïau am ddim o sylwadau dedfrydu barnwyr i ddioddefwyr Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol

- **5.5:** Gwella adnabod troseddwyr cam-drin domestig wrth ddedfrydu er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau cywir ar waith i reoli troseddwyr
- **5.6:** Ehangu darpariaeth Llysoedd Arbenigol ar gyfer Cam-drin Domestig
- **5.7:** Gwella hyfforddiant i ymarferwyr cyfiawnder troseddol a'r farnwriaeth ar drais yn erbyn menywod a merched i lywio dedfrydu priodol a rheoli troseddwyr
- **5.8:** Cyfarparu'r Gwasanaeth Prawf â digon o adnoddau i reoli troseddwyr trais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys ar gyfer monitro electronig

Mae **Pennod Chwech: Dulliau wedi'u targedu at wahanol grwpiau** yn cydnabod y gall dull unigol o ddedfrydu sbarduno'r canlyniadau gorau a gwella rhagolygon adsefydlu ar gyfer mathau penodol o droseddwyr fel troseddwyr toreithiog, benywaidd a hŷn. Mae'r bennod hon hefyd yn archwilio ymyriadau fferyllol a all gefnogi ymatal rhag troseddau rhywiol a helpu i drin dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Yn olaf, mae'r bennod yn ystyried dulliau o gael gwared ar droseddwyr sy'n ddinasyddion tramor (FNOau). Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **6.1:** Ehangu argaeledd Llysoedd Goruchwyliaeth Dwys i fynd i'r afael â throseddu toreithiog
- **6.2:** Darparu cyllid mwy cynaliadwy a hirdymor i Ganolfannau Menywod
- **6.3:** Sicrhau bod troseddwyr benywaidd yn derbyn cefnogaeth briodol drwy (1) ehangu'r defnydd o gyswllt a dargyfeirio a (2) ystyried llwybr penodol i fenywod fel rhan o ofynion triniaeth Cyffuriau ac Alcohol
- **6.4:** Casglu a chyhoeddi data ar ddefnyddio carchar fel “man diogel”
- **6.5:** Comisiynu astudiaeth o effaith a chanlyniadau deddfwriaeth Ymosodiad ar Weithwyr Brys
- **6.6:** Cynyddu'r defnydd o Ryddhau Cynnar ar Seiliau Tosturiol ar gyfer troseddwyr hŷn addas
- **6.7:** Cytuno ar strategaeth i reoli anghenion iechyd cymhleth troseddwyr hŷn
- **6.8:** Hwyluso gwaredu Troseddwyr sy'n Ddinasyddion Tramor yn gynharach
- **6.9:** Adeiladu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr o amgylch defnyddio atal cemegol ar gyfer troseddwyr rhyw, ac archwilio opsiynau ar gyfer parhau i ariannu gwasanaethau yn y maes hwn
- **6.10** Parhau i fonitro meddyginiaethau sy'n dod i'r amlwg i drin dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol

Mae **Pennod Saith: Rôl y Gwasanaeth Prawf** yn sefydlu swyddogaeth hanfodol y Gwasanaeth Prawf wrth reoli troseddwyr yn y gymuned. Mae'r bennod hon yn cynnig defnydd ehangach o'r trydydd sector, yn seiliedig ar dystiolaeth y gall y trydydd sector, pan gaiff ei ddefnyddio'n briodol, sbarduno canlyniadau adsefydlu gwell i droseddwyr. Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod gwerth technoleg, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI), wrth leihau llwythi gwaith gweinyddol o fewn y Gwasanaeth Prawf, a thrwy hynny ryddhau amser ac adnoddau y gellir eu buddsoddi'n well mewn meithrin perthnasoedd cryf, dibynadwy â throseddwyr. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **7.1** Cynyddu buddsoddiad yn y Gwasanaeth Prawf i gefnogi cynhwysedd a gwydnwch
- **7.2:** Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i'r trydydd sector i gefnogi'r Gwasanaeth Prawf i reoli troseddwyr yn y gymuned, a galluogi mwy o gomisiynu gan sefydliadau lleol
- **7.3:** Ehangu’r defnydd o’r trydydd sector i gefnogi troseddwyr sydd ar ddedfrydau cymunedol a thrwyddedau, er mwyn helpu’r Gwasanaeth Prawf i flaenoriaethu adnoddau a gwella canlyniadau i droseddwyr

- **7.4:** Cynyddu'r defnydd o dechnolegau wedi'u profi yn y Gwasanaeth Prawf, er mwyn galluogi ymgysylltiad mwy ystyrlon rhwng ymarferwyr a throseddwyr ar brawf

Mae **Pennod Wyth: Rôl technoleg** yn edrych ar sut y gall technoleg (gan gynnwys deallusrwydd artiffisial) leihau beichiau gweinyddol ac o bosibl drawsnewid gweithrediad ein system gyfiawnder. Mae'r bennod hon yn archwilio sut y gall technoleg wella'r ffordd rydym yn monitro ac yn goruchwylio troseddwyr a hwyluso mwy o rannu data a chysylltiad rhwng gwasanaethau, gan gefnogi troseddwyr yn eu hadsefydlu a dioddefwyr yn eu hangen am eglurder ac amddiffyniad. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **8.1:** Defnyddio technoleg bresennol yn fwy effeithiol i amddiffyn y cyhoedd a gwella adsefydlu
- **8.2:** Buddsoddi mewn ehangu cyflym cynlluniau peilot llwyddiannus mewn technoleg a ddefnyddir fel rhan o oruchwyliaeth troseddwyr
- **8.3:** Gofyn i bob technoleg a ddatblygir ar gyfer rheoli troseddwyr gael ei hintegreiddio â gwyddor ymddygiad
- **8.4:** Gwella rhannu data ar draws asiantaethau sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf
- **8.5:** Cydweithio ymhellach â diwydiant ar ymchwil a datblygu i archwilio technolegau newydd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial uwch

Mae **Pennod Naw: Ystyriaethau tymor hwy ar gyfer system garchardai gynaliadwy** yn trafod sut i sicrhau nad yw unrhyw gynnydd a wneir yn dilyn gweithredu argymhellion yr Adolygiad hwn yn cael ei golli, a bod llywodraethau olynol o unrhyw liw gwleidyddol yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynhwysedd carchardai. Mae'r bennod hefyd yn ystyried gwaith pellach sydd ei angen ynghylch deall rôl newidiadau deddfwriaethol, megis cynnydd mewn dedfrydau uchaf ac isaf, ar chwyddiant hyd dedfrydau, yn ogystal â'r gwaith pwrpasol sydd ei angen i ddeall canlyniadau anghymesur yn y system gyfiawnder yn well. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **9.1:** Cyflwyno corff cynghori allanol
- **9.2:** Cyflwyno gofyniad i Weinidogion wneud datganiad i'r Senedd yn ystod cyflwyniad Bil newydd ar ei effaith ar y galw mewn carchardai

---

[1] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Poblogaeth Carchardai: ffigurau ystad wythnosol 2025, (2025) <https://www.gov.uk/government/publications/prison-population-weekly-estate-figures-2025>
[2] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Newid newydd i ddyddiadau rhyddhau awtomatig rhai troseddwyr, (2024) <https://www.gov.uk/guidance/new-change-to-some-offenders-automatic-release-dates>
[3] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, Hanes a Thueddiadau mewn Dedfrydu, t.7 (2025) <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67c583a868a61757838d2196/independent-sentencing-review-part-1-report.pdf>
[4] Diffinnir ail-drosedd a brofwyd fel unrhyw drosedd a gyflawnir mewn cyfnod dilynol o flwyddyn sy'n arwain at euogfarn llys, rhybuddiad, cerydd, neu rybudd yn y dilyniant o flwyddyn neu o fewn cyfnod aros pellach o chwe mis i ganiatáu i'r drosedd gael ei phrofi yn y llys.

Gweler: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ystadegau aildroseddu a brofwyd: Ebrill i Fehefin 2023, (2025) <https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-april-to-june-2023/proven-reoffending-statistics-april-to-june-2023>
[5] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Data perfformiad carchardai 2023 i 2024, (2025) <https://www.gov.uk/government/publications/prison-performance-data-2023-to-2024>
[6] Mae rhaglenni adeiladu carchardai yn cynnwys carchardai newydd, blociau tai newydd, Celloedd Defnyddio Cyflym ac adnewyddiadau. Gweler: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Strategaeth Cynhwysedd

Carchardai 10 Mlynedd, (2024)
<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67586f828a1ef8f66413b9c2/24.231_MOJ_10-Year_Capacity_Strat_Pub_v10.1_WEB.pdf>

[7] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Datganiad Blynyddol ar Gynhwysedd Carchardai: 2024, t.6 (2024)
<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67586ee8f8e28262d63bfa7e/20.312_MOJ_Annual-State-Prison-Capacity_v10.1_WEB.pdf>

[8] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, Hanes a Thueddiadau mewn Dedfrydu, (2025)
<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67c583a868a61757838d2196/independent-sentencing-review-part-1-report.pdf>

[9] Cyfres Ddadansoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Costau economaidd a chymdeithasol aildroseddu, (2019)
<https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/814650/economic-social-costs-reoffending.pdf>

[10] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Trawsnewid Adsefydlu: crynodeb o dystiolaeth ar leihau aildroseddu, t.5 (2013) <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7565a8e5274a1baf95e408/evidence-reduce-reoffending.pdf>; Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref, Lleihau Troseddau: Dedfrydau Cymunedol Gwell, t.31 (2023)
<https://publications.parliament.uk/pa/ld5804/ldselect/ldjusthom/27/27.pdf>

[11] Cyngor Dedfrydu, Gosod dedfrydau cymunedol a charchar, (dim dyddiad)
<https://www.sentencingcouncil.org.uk/overarching-guides/magistrates-court/item/imposition-of-community-and-custodial-sentences/>; Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref, Lleihau troseddu: dedfrydau cymunedol gwell, tt.3-15 (2023)
<https://publications.parliament.uk/pa/ld5804/ldselect/ldjusthom/27/27.pdf>

[12] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Trawsnewid Adsefydlu: crynodeb o dystiolaeth ar leihau aildroseddu, t.5 (2013) <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7565a8e5274a1baf95e408/evidence-reduce-reoffending.pdf>

[13] Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr, Adroddiad Blynyddol 2022-23, (2023)
<https://cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com/uploads/sites/19/2024/02/Annual-report.pdf>

[14] Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, Cyfnodau enbyd i garchardai: Prif Arolygydd carchardai yn galw am gamau parhaus i fynd i'r afael â'r argyfwng, (2024)
<https://hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk/news/desperate-times-for-prisons-chief-inspector-of-prisons-calls-for-sustained-action-to-tackle-the-crisis/>

[15] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, Hanes a Thueddiadau mewn Dedfrydu, t.33 (2025)
<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67c583a868a61757838d2196/independent-sentencing-review-part-1-report.pdf>

[16] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, Hanes a Thueddiadau mewn Dedfrydu, t.33 (2025)
<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67c583a868a61757838d2196/independent-sentencing-review-part-1-report.pdf>

[17] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, Hanes a Thueddiadau mewn Dedfrydu, (2025)
<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67c583a868a61757838d2196/independent-sentencing-review-part-1-report.pdf>